**Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol**
**European and External Affairs Committee**
Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

EUROPEAN UNION
Committee of the Regions

**Cyfarfod y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ym Mrwsel - 1 Mawrth**

16 Chwefror 2010

Annwyl Gydweithiwr

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod ffurfiol Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gynhelir yn adeilad Pwyllgor y Rhanbarthau, Bâtiment Jacques Delors, Rue Belliard 99-101, B - 1040 Brwsel, Gwlad Belg ar Ddydd Gŵyl Dewi, dydd Llun 1 Mawrth.

Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod fel rhan o ymweliad gan Aelodau'r Pwyllgor ar ddiwrnod cenedlaethol Cymru a fydd hefyd yn cynnwys trafodaethau anffurfiol gydag Aelodau o Senedd Ewrop, y Comisiwn Ewropeaidd, Cabinet Arlywydd Barroso, a chynrychiolwyr o ranbarthau Ewropeaidd eraill sydd â phwerau deddfwriaethol.

Prif amcan y cyfarfod ffurfiol yw trafod datblygiad Strategaeth EU2020 a dyfodol polisi cyllid a chydlyniant yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Pwyllgor yn cynnal ymchwiliadau i'r materion hyn, a chyhoeddodd adroddiad interim ar Ddyfodol y Polisi Cydlyniant ym mis Rhagfyr 2009. Bydd y pedwar Aelod Cymreig o Senedd Ewrop a'r Athro Danuta Hübner ASE, Cadeirydd Pwyllgor Datblygu Gwledig Senedd Ewrop, yn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor. Bydd yr agenda a manylion y lleoliad yn cael eu darparu ar wahân.

.

1/2...

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 1821

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh


Os hoffech fynychu'r cyfarfod, a fyddech cystal â rhoi gwybod i ni erbyn dydd Iau 25 Chwefror drwy anfon e-bost at Europe.Comm@wales.gsi.gov.uk neu drwy ffonio 00 44 2920 898617 (Caerdydd) neu 00 32 222 666 92 (Brwsel).

Rwy'n gobeithio y gallwch ymuno â ni yn y cyfarfod ym Mrwsel

Bydd cofnod gair am air o'r cyfarfod yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Pwyllgor. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am waith y Pwyllgor yma:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-eur-home.htm

Yr eiddoch yn gywir



**Y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan AC**
Cadeirydd y Pwyllgor